Y Tîm Cydadolygu ar gyfer pob Awdurdod Lleol

Gweithio fel tîm

Yr adolygydd arweiniol sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyflawni'r adolygiad (o fewn y fethodoleg a gytunwyd) ac ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad. Cyflawnir y cyfrifoldebau hyn, ar ran Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r canllawiau ac yn ddarostyngedig i'r trefniadau a gytunwyd parthed sicrhau ansawdd, safoni a chymeradwyo ffurfiol.

Mae aelodau eraill o'r tîm adolygu yn rhannu'r cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni'r adolygiad ac am ei ganfyddiadau. Maent yn gweithio o dan gyfarwyddyd yr adolygydd arweiniol o ddydd i ddydd. Mae ganddynt gyfrifoldeb i godi:

- gyda'r adolygydd arweiniol unrhyw faterion o bryder neu anghytundeb;
- gyda'r rheolwyr arweiniol yn Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw faterion y credant na chawsant eu datrys yn briodol.

Penodir yr holl adolygwyr (yn cynnwys y rhai na chyflogir yn uniongyrchol gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru) drwy brosesau recriwtio agored, ar sail manyleb person berthnasol. Bydd ganddynt brofiad helaeth a enillwyd drwy weithio ar lefel uchel o gyfrifoldeb ym maes gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, rheoli, archwilio neu arolygu. Bydd gan unrhyw un a apwyntir fel adolygydd arweiniol brofiad blaenorol o gydadolygu.

Mae pob adolygydd yn atebol am y gwaith a wnânt. Disgwylir iddynt gydymffurfio:

- â'r cod ymarfer;
- â'r broses a gytunwyd ac â'r fethodoleg a gytunwyd ar gyfer cydadolygu.

Mae aseswyr lleyg yn rhannu yng nghyfrifoldeb y tîm adolygu. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i godi gyda'r rheolwyr arweiniol neu gyda'r corff sy'n eu noddi, sef Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, unrhyw faterion y credant na chafodd eu datrys yn briodol. Nodir swyddogaeth yr asesydd lleyg yn y llawlyfr cydadolygu (Adran 3.2).

Cytunir ar gynnwys tîm cydadolygu ar gyfer awdurdod lleol penodol rhwng y rheolwyr arweiniol o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Byddant yn cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- yr angen i sicrhau cydbwysedd o safbwynt profiad, sgiliau a gwybodaeth;
- anghenion ieithyddol;
- cydbwysedd rhwng y rhywiau;
- effeithiolrwydd y tîm.

Bydd timau ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn cynnwys adolygydd sy'n siarad Cymraeg a gorau oll os bydd yna asesydd lleyg sy'n siarad Cymraeg. Os yn bosibl, bydd o leiaf un aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg yn achos awdurdodau lleol eraill lle mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae'r tîm cydadolygu ar gyfer pob awdurdod lleol yn cynnwys:

- adolygydd arweiniol;
- adolygydd neu adolygwyr a enwebwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- adolygydd neu adolygwyr a enwebwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- adolygydd ymgynghorol;
- aseswyr lleyg.

Ar amrywiol gamau yn y broses gall yr arolygydd cyswllt o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rheolwr perthynas Swyddfa Archwilio

Cymru a'r tîm archwilio lleol fod â rhan ffurfiol yn y tîm. Nodir eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn y llawlyfr cydadolygu (Adrannau 3.3 a 3.4).

Y nod yw sicrhau bod y tîm:

- yn cynnwys y cydbwysedd gorau posibl o arbenigedd mewn gwasanaethau cymdeithasol, arolygu, rheoli adnoddau a llywodraethu corfforaethol;
- yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl i gasglu'r dystiolaeth ofynnol.

Y prif gyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol yw'r adolygydd arweiniol. Mae'r person hwn yn arolygu'r broses o gynllunio'n fanwl ar gyfer yr adolygiad ac mae'n arwain yr adolygiad hyd at yr ôl-weithredu. Yr adolygydd arweiniol sy'n gyfrifol am gytuno ar yr amserlen fanwl gyda'r awdurdod, rheoli gwaith y tîm, codi unrhyw faterion sy'n peri pryder a drafftio'r adroddiad.

Mae adolygwyr o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cynorthwyo'r adolygydd arweiniol ac yn ysgwyddo llwyth gwaith tebyg o fewn yr awdurdod, gan gynnwys cyfweliadau ac ymweliadau. Maent â rhan gyfartal mewn pwyso a mesur y dystiolaeth ac mewn ffurfio'r dyfarniad cyffredinol. Mae'r gwaith a ddyrennir iddynt gan yr adolygydd arweiniol yn adlewyrchu meysydd penodol eu harbenigedd.

Nid yw'r adolygydd ymgynghorol yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan naill ai Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru na Swyddfa Archwilio Cymru. Ei swyddogaeth yw:

- darparu arbenigedd penodol wrth edrych ar feysydd arbennig o fewn y fframwaith gwerthuso;

- ategu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y tîm, gyda phwyslais arbennig ar asesu'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn cynnig arweiniad cyffredinol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol;
- darparu elfen o her ar gyfer y tîm adolygu, gan weithredu fel un dull o gynorthwyo i sicrhau chwarae teg a chanolbwyntio ar faterion allweddol.

O dan rai amgylchiadau, gall y rheolwr gweithrediadau ar gyfer cydadolygu yn naill ai Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni'r swyddogaeth hon.

Ategir gwaith y tîm cydadolygu gan gydweithwyr o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer agweddau penodol ar yr adolygiad. Trafodir trefniadau o'r fath ymlaen llaw gyda'r awdurdod ac fe gytunir arnynt yn y cyfarfod cychwynnol gyda rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol neu mewn cyfarfodydd cynllunio ar gyfer y rhaglen gwaith maes manwl.

Mae cynnwys aseswyr lleyg o gymorth i ddod â phersbectif gwahanol i waith timau adolygu. Nid eu swyddogaeth nhw yw ymddwyn fel arolygwyr proffesiynol ond yn hytrach cyflawni gwaith penodol sy'n eu galluogi i gynrychioli safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Maent yn canolbwyntio ar dasgau sy'n gofyn deall profiadau a buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn eu cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol a chyrff sy'n bartneriaid.